

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

## Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cyfathrebu'r Cynulliad**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ar-lein: [www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)  
E-bost: [cysylltu@cynulliad.cymru](mailto:cysylltu@cynulliad.cymru)  
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Comisiwn y Cynulliad

## Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales





# Cynnwys

<b>Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru .....</b>	<b>1</b>
<b>Codi Ymwybyddiaeth.....</b>	<b>3</b>
<b>Lefel y sgiliau cyfredol .....</b>	<b>4</b>
<b>Sgiliau iaith ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog .....</b>	<b>5</b>
<b>Dysgu Cymraeg neu wella sgiliau Cymraeg .....</b>	<b>6</b>
<b>Adolygu.....</b>	<b>7</b>



# Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Rhagarweiniad

Mae'r Cynllun leithoedd Swyddogol wedi ein hymrwymo i gyflwyno Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Mae'r Strategaeth hon yn egluro ein dull gweithredu ac yn pennu pum amcan i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i gael ein cydnabod fel sefydliad sy'n wirioneddol ddwyieithog.

Rydym yn gwerthfawrogi pob aelod o'n staff, ni waeth beth yw lefel eu dwyieithrwydd, am yr ymrwymiad sydd ganddynt i'r Cynulliad a'u harbeniged seneddol a phroffesiynol. Rydym yn disgwyl bod pawb wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith swyddogol. Pan fydd rhwystrau yn atal hyn, bydd y strategaeth hon yn ein helpu i weithio i'w dileu fel bod y Cynulliad yn dangos dyhead parhaus i wella'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir. Bydd aelodau o staff sydd eisoes yn gweithio i'r Comisiwn, yn ogystal ag aelodau newydd o staff, yn cael cymorth os ydynt am ddatblygu eu sgiliau iaith, a disgwylir i bob rheolwr gefnogi ceisiadau gan staff sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r gofynion busnes.

Mae ein hymrwymiad i ddatblygu sgiliau Cymraeg a hyder aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn allweddol i gyflawni'r uchelgais hon. Rydym yn cydnabod bod buddsoddi mewn sgiliau dwyieithog aelodau o staff yn hanfodol i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu darparu gwasanaethau yn ei ddwy iaith swyddogol, fel yr amlinellir yn y Cynllun leithoedd Swyddogol.

Mae'r strategaeth hon yn defnyddio'r wybodaeth, y profiadau a'r arfer gorau sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus yng Nghymru dros y ddau ddegawd diwethaf, yn ogystal â'r cyngor gorau sydd ar gael. Mae'n defnyddio'r wybodaeth honno yng nghyd-destun statws aur Buddsoddwyr Mewn Pobl y Comisiwn a'i ymrwymiad i fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu sylweddol ar gyfer ei holl staff er mwyn ein helpu i gyrraedd y nod o ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf.

## Y fframwaith deddfwriaethol

Mae Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Deddf Ieithoedd Swyddogol) 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad drin ieithoedd swyddogol y Cynulliad yn gyfartal wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi Cynllun sy'n cynnwys strategaeth ar gyfer sicrhau bod gan staff y Cynulliad, **ar y cyd**, y sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Cynllun.

## Y Strategaeth

Mae nodau'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, yn cynnwys:

- sicrhau bod gennym y bobl, y sgiliau a'r cymorth priodol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswydd statudol i alluogi unrhyw un sy'n rhan o drafodion y Cynulliad i wneud hynny yn ein hieithoedd swyddogol;
- nodi'n glir ac mewn ffordd dryloyw y trefniadau ar gyfer cynllunio, datblygu a rheoli adnodd sgiliau dwyieithog y sefydliad;
- darparu ystod o gyfleoedd dysgu a hyfforddi i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ffordd sydd bob amser wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion busnes, ac i'r graddau y bo hynny'n bosibl, eu hanghenion unigol.

Mae'r egwyddorion a ganlyn yn sail i'r Strategaeth hon:

- Mae gwasanaeth dwyieithog yn golygu gwasanaeth o ansawdd, hygyrchedd a phrydlondeb cyfartal yn y ddwy iaith swyddogol;
- Caiff pob aelod o staff ei gefnogi a'i annog i ddatblygu lefel o sgiliau yn y ddwy iaith sy'n addas i'w swydd, ac i ddefnyddio'r sgiliau hynny;
- Caiff gallu ieithyddol, at ddibenion gwaith, ei ystyried yn sgil fel unrhyw sgil arall;
- Bydd cynlluniau iaith gwasanaethau unigol yn nodi sut y bydd pob tîm yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith hynny o fewn y tîm ac yn ehangach;
- Byddwn yn meddwl yn greadigol am sut yr ydym yn sicrhau y gall timau ac unigolion ddarparu gwasanaethau dwyieithog y tu hwnt i'w gwneud yn ofynnol i aelodau o staff ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg e.e. defnydd priodol o gyfieithu peirianyddol, cyfieithu a/neu ddehongli testun proffesiynol.



# Codi Ymwybyddiaeth

Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn recriwtio aelod newydd o staff, gall ddisgwyl cael cymorth priodol er mwyn bod yn ymwybodol o'r Cynllun leithoedd Swyddogol a datblygu dealltwriaeth o'r ethos a'r diwylliant dwyieithog yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r amcan hwn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth ymhlith aelodau newydd o staff. Fel rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun leithoedd Swyddogol, mae pob aelod o staff y Comisiwn yn cael hyfforddiant leithoedd Swyddogol wedi'i deilwra.

**Amcan - Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall gofynion y Cynllun leithoedd Swyddogol ar y cyfan, gan roi sylw penodol i swyddi a gwasanaethau penodol.**

Mae'r Cynllun leithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff fod yn gwbl ymrwymedig i weithredu'r Cynllun, a pharchu hawliau'r Aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd i ddefnyddio un o'r ddwy iaith swyddogol. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi y bydd pob aelod o staff yn hyrwyddo darpariaethau'r Cynllun ac yn datblygu gwasanaethau newydd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r Cynllun. Mae aelodau cyfredol o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth. Bydd pob aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth er mwyn eu helpu i ddeall y Cynllun, ei flaenoriaethau a chyfrifoldebau unigolion, timau a gwasanaethau.

## Camau gweithredu

Pob aelod newydd o staff i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth fel rhan o raglen gynefino staff newydd;

Tîm y Cynllun leithoedd Swyddogol i ddatblygu adnodd ar gyfer sesiynau ymwybyddiaeth ar gyfer rhaglen gynefino staff newydd.

**Targed:** Hydref 2015

# Lefel y sgiliau cyfredol

Bydd cael gwybodaeth am lefel sgiliau Cymraeg pob aelod o staff yn rhoi gwybodaeth well o ran rheoli i Benaethiaid Gwasanaeth ac yn galluogi iddynt gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn y ddwy iaith swyddogol.

## **Amcan - Asesu sgiliau Cymraeg pob aelod o staff.**

Er mwyn cyflawni amcan y Comisiwn i ddarparu amrywiaeth gynhwysfawr a gwerthfawr o wasanaethau dwyieithog, mae angen i Gomisiwn y Cynulliad fapio sgiliau Cymraeg cyfredol pob aelod o staff. Defnyddir y wybodaeth i nodi ein cryfderau a meysydd i'w gwella, amlinellu gofynion o ran hyfforddiant corfforaethol ac asesu effaith buddsoddi mewn hyfforddiant. Bydd hyn hefyd yn llywio penderfyniadau'r dyfodol ynghylch gofynion sgiliau iaith ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag. Bydd rheolwyr llinell yn defnyddio'r wybodaeth i lywio trafodaethau ynghylch hyfforddiant ar gyfer cyfarfodydd yr adolygiadau PMDR, ac annog staff i ddatblygu hyder a sgiliau iaith yn Gymraeg.

## **Camau gweithredu**

- Tîm y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar y cyd â'r Tîm Adnoddau Dynol i ddatblygu a chynnal archwiliad priodol o sgiliau iaith;
- Penaethiaid gwasanaeth i ddefnyddio'r wybodaeth i ddiweddarau cynlluniau iaith gwasanaethau unigol.

**Targed:** Ebrill 2015

# Sgiliau iaith ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog

Er mwyn cael ei gydnabod fel sefydliad sy'n wirioneddol ddwyieithog, mae Comisiwn y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau bod gan wasanaethau, timau ac aelodau unigol o staff y lefel briodol o sgiliau iaith i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol.

**Amcan - Darparu datrysiadau priodol, gan gynnwys cymorth a hyfforddiant, er mwyn alinio gallu dwyieithog yn well â'r gofynion iaith ar gyfer timau neu swyddi unigol.**

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r Archwiliad o Sgiliau iaith a diweddarau cynlluniau iaith gwasanaethau, bydd rheolwyr llinell a phenaethiaid gwasanaeth yn nodi unrhyw wahaniaethau rhwng y lefel sgiliau sydd ei angen, a'r lefel o fewn pob tîm. Caiff cymorth penodol ac amserol ei ddarparu i unigolion neu dimau pan fo angen datblygu anghenion o ran gallu dwyieithogd ymhellach i fodloni gofynion. Caiff gofynion hyfforddi eu hamlinellu fel rhan o'r broses PMDR. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys prawfddarllen, gwasanaeth dychwelyd yn gyflym ar gyfer gwaith brys, sesiynau gloywi gramadeg a system fentora i helpu siaradwyr Cymraeg llai hyderus i weithio'n ddwyieithog.

Ar gyfer unrhyw swyddi newydd, neu phan fo swyddi gwag yn codi, dylai rheolwyr llinell a phenaethiaid gwasanaeth ystyried y gallu dwyieithog o fewn y tîm er mwyn penderfynu ar ofynion iaith y swydd wag. Mae cymorth ac arweiniad ar gael i helpu.

**Amcan - Adolygu sut yr ydym yn penderfynu ar y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi fel rhan o'r broses recriwtio.**

Er mwyn sicrhau bod lefel y sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi a thimau yn cael eu pennu'n gyson ac yn caniatáu inni gyflawni'r nod o ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, caiff matrices penderfynu syml ei ddatblygu ar y cyd â'r tîm Adnoddau Dynol a drwy ymgynghori â staff y Comisiwn ac Ochr yr Undebau Llafur. Bydd y matrices yn caniatáu i benaethiaid gwasanaeth asesu'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi unigol, gan ystyried sgiliau iaith y tîm a'r gwasanaeth. Dylid defnyddio'r matrices i lunio a diweddarau cynlluniau iaith gwasanaethau unigol.

## Camau gweithredu

- Adolygiadau PMDR i roi amlinelliad clir o unrhyw anghenion hyfforddi mewn perthynas â sgiliau Cymraeg er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau yn y ddwy iaith swyddogol;
- Datblygu a darparu ystod lawn o gymorth, gan gynnwys adnoddau cyfieithu ac offer technolegol, i staff yn unol ag anghenion y swydd neu'r tîm;
- Y tîm Adnoddau Dynol a Rheolwr y Cynllun i ddatblygu matrices i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ar ôl ymgynghori ag Ochr yr Undebau Llafur;
- Pob rheolwr llinell a phennaeth gwasanaeth i gael canllawiau ar y defnydd o'r matrices sgiliau iaith ar ôl iddo gael ei ddatblygu.

**Targed:** Datblygu'r matrices erbyn haf 2015

# Dysgu Cymraeg neu wella sgiliau Cymraeg

Mae dysgwyr Cymraeg yn gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad ymhellach a gallant wneud cyfraniad sylweddol i'r broses o ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Mae Comisiwn y Cynulliad yn disgwyl i bob aelod o staff ddangos ymrwymiad i ddarparu mwy o wasanaethau dwyieithog rhagorol. Yn gyfnewid am hyn, bydd Comisiwn y Cynulliad yn cefnogi ac yn annog pob aelod o staff i ddatblygu a gwella eu sgiliau dwyieithog.

## **Amcan - Darparu hyfforddiant a chyfleoedd addas i bob aelod o staff sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau Cymraeg.**

Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol bod pob aelod o'r Bwrdd Rheoli yn annog staff i wneud defnydd o'r hyfforddiant dysgu iaith yn unol ag anghenion busnes. Caiff aelodau o staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach, neu fagu hyder i ddefnyddio sgiliau iaith cyfredol i wella'r gwasanaethau dwyieithog a gynigir a mynd i'r afael ag achosion pan nad yw'r ddarpariaeth yn bodloni'r safonau gofynnol.

## **Camau gweithredu**

- Adolygu'r hyfforddiant dysgu Cymraeg cyfredol;
- Parhau i wella a datblygu'r ddarpariaeth o ddatrysiadau dysgu creadigol nad ydynt mewn ystafell ddosbarth;
- Datblygu a hyrwyddo ymhellach y ddarpariaeth o gyfleoedd dysgu cyflym ac uwchraddio sgiliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n llai hyderus;
- Adolygiadau PMDR i roi amlinelliad clir o'r cyfleoedd datblygu sgiliau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr unigolion.

# Adolygu

Caiff y Strategaeth hon ei hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ar y cyd â'r adolygiad o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Caiff yr amcanion sy'n ymwneud ag anghenion iaith timau a gwasanaethau eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol.